**Pwynt Gweithredu rhif 4 Cyfarfod archwiliadol Cynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro 16 Mehefin 2026. Amlinelliad o ganllawiau cynllunio atodol i gefnogi Polisi GN 47/ Polisi 12A Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr √**

| Cynnwys / Cydran | Yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r Cynllun Gweithredu Lliniaru |
|---|---|
| **Diben** | Dangos **na** fydd polisïau a chynigion datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol **yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd yr Ardal Cadwraeth Arbennig**. |
| **Rôl yn y system gynllunio** | Yn cefnogi'n bennaf **Polisi GN 47/Polisi SP12A Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr y Cynllun Datblygu Lleol** - dull cafeat |
| **Lefel / graddfa** | Fel arfer ar **lefel cynllun (Cynllun Datblygu Lleol)** wedi'i lywio gan y fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd ar gyfer y dalgylchoedd perthnasol. |
| **Sicrwydd sydd ei angen** | Bydd yn cynnwys **mesurau**, yn darparu digon o hyder i gefnogi trothwy a/neu ddefnydd integredig a/neu barhaus o'r dull niwtraliaeth maethynnau mewn dalgylchoedd neu is-ddalgylchoedd yr effeithir arnynt - wedi'u mapio.<br><br>Dangos opsiynau cyflawnadwyedd drwy gynllun credyd maethynnau neu fesurau pwrpasol lle bo angen. Sicrhau bod modd gorfodi mesurau (defnyddio adran 106/amodau).<br><br>Cydnabod y bydd unrhyw fesurau sydd eu hangen a'r mesurau lliniaru sy'n deillio o hynny ar gyfer datblygiad a nodwyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r ymarfer Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Sylfaen / tystiolaeth – crynodeb** | Yn cynnwys: dealltwriaeth o amodau llinell sylfaen a gymerwyd o'r cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd perthnasol. |
| **Asesiad effeithiau** | Amcangyfrif o **effeithiau maethynnau o ddatblygiad** (cynigion cynllun). Llwybr a fabwysiadwyd gan Gynllun Datblygu Lleol 2 gyda chyllideb maethynnau gysylltiedig yn cael ei diweddaru'n flynyddol o dan yr Adroddiad Monitro Blynyddol. |
| **Crynodeb o'r mesurau presennol** | Nodi mesurau **presennol ac wedi'u cynllunio** a fydd yn cyflawni gwelliannau ac yn osgoi dirywiad. (wedi'u cymryd o'r cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd ac wedi'u diweddaru o ganlyniad) |
| **Crynodeb o fesurau / camau gweithredu yn y dyfodol** | Nodi **gwelliannau sydd eu hangen yn y dyfodol**, gan gynnwys camau lliniaru posibl a chyfraniadau datblygwyr |

| Cynnwys / Cydran | Yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r Cynllun Gweithredu Lliniaru |
|---|---|
| | (wedi'u cymryd o'r cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd ac wedi'u diweddaru o ganlyniad). |
| **Integreiddio â chynlluniau lleihau maethynnau dalgylchoedd** | Rhaid dangos aliniad â **chynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd** gan osgoi ailadrodd. |
| **Dull lliniaru - crynodeb** | Yn nodi mesurau **lliniaru lle bo angen**, gan gynnwys cyfraniadau datblygwyr sy'n gysylltiedig â niwtraliaeth maethynnau neu â dull integredig sy'n gysylltiedig â chamau adfer ehangach. Mewn dull integredig, bydd cyfraniadau datblygwyr yn cynyddu graddfa neu'n cyflymu'r broses o ddarparu mesurau adfer a gynlluniwyd. (**Cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd**) |
| **Cyfraniadau datblygwyr** | Yn nodi **cyfraniadau dangosol a rhagdybiaethau ariannu** ar gyfer mesurau lliniaru – Cynllun(iau) Cyfraniadau Datblygwyr yn dibynnu ar y cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd. |
| **Mecanweithiau cyflawni** | Rhaid nodi **sut mae mesurau'n cael eu sicrhau**, gan gynnwys mecanweithiau cyfreithiol/ariannol lle maent yn hysbys. |
| **Cyflwyno'n raddol / llwybr** | Yn adlewyrchu **fframwaith rheoli addasol** (camau gweithredu tymor byr/canolig/hir). Canfyddiadau **cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd** |
| **Cerrig milltir** | Dylai gynnwys **cerrig milltir cyflawni** sy'n gysylltiedig â rhybuddion polisi a monitro. Adolygu canfyddiadau/fersiynau o **gynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd** perthnasol. **Byddai cerrig milltir yn ymwneud â phwyntiau lle rhagwelir newid yn null[1] cam wrth gam Llywodraeth Cymru ar gyfer y dalgylch/is-ddalgylch perthnasol. Byddai angen i newid yn y dull cam wrth gam gael ei gefnogi hefyd gan ddiweddariad i ganfyddiadau'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.** |
| **Fframwaith Monitro** | Angen **fframwaith monitro clir** sy'n cysylltu datblygiad â chyflawni mesurau lliniaru ac adfer dalgylch. Cysylltiadau â fframwaith cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd a'r monitro blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Cysylltiad polisi** | Wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â **pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (sef Polisi GN 47/SP12 A Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr** gan gynnwys **cafeat polisi** (caniatâd yn amodol ar gynnydd). |
| **Hyblygrwydd / gallu i addasu** | Wedi'i gynllunio i **esblygu dros amser** wrth i dystiolaeth a chynnydd cyflawni wella. |

[1] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/clarification-note-applying-the-tests-of-soundness-to-local-development-plans-ldps.pdf

| Cynnwys / Cydran | Yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r Cynllun Gweithredu Lliniaru |
|---|---|
| **Allbynnau / pethau i'w cyflawni** | Fframwaith sy'n dangos **sut y bydd mesurau lliniaru lle bo angen yn cael eu sicrhau a'u monitro** i alluogi gweithredu polisi'r cynllun. |

**Adborth Cyfoeth Naturiol Cymru 26 Mehefin 2026:** Pwynt Gweithredu 4 - Dim problemau o ran egwyddorion. Rydym yn cynghori bod y dull yn cael ei gadw'n weddol hyblyg o ran manylion a dull cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd / mecanweithiau eraill fel masnachu, gan nad yw manylion y rhain wedi'u harchwilio'n llawn eto. Unwaith eto, gallwn gydweithio ar hyn wrth i bethau fynd rhagddynt.